# Dyfrgwn

# Dyfrgwn



## Cyflwyniad:

Yn un o'r 66 mamal gwyllt sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, y dyfrgi yw'r mwyaf o deulu gwenci'r Deyrnas Unedig.

Gan gynnwys y gynffon, mae'r gwrywod yn gallu mesur dros un metr o hyd, ac maent yn pwyso tua'r un faint â phlentyn bach. Mae ganddynt ddiet amrywiol ac mae cyfuniad o'u dannedd llygad miniog a dannedd cefn mwy fflat yn golygu eu bod yn gallu bwyta pysgod llithrig a chramenogion cragen galed. Er mwyn cynnal eu hanghenion bwyta, mae dyfrgwn angen tiriogaethau hir ar hyd dalgylchoedd afonydd. Mae dyfrgwn yn teithio'n bell bob dydd ac yn ymweld â gwahanol gynefinoedd wrth chwilota am fwyd.

Maent yn anifeiliaid nosol gan fwyaf, sy'n golygu bod nifer dda ohonynt yn gallu meddiannu ardaloedd wrth barhau i fod yn anhysbys. Maent yn treulio'r rhan fwyaf o'r diwrnod yn cysgu yn eu gwalau (ffaeau wedi cael eu hadeiladu i mewn i lannau afon neu dyllau coed) neu mewn lleoedd cudd wedi eu hamgylchynu gan lystyfiant hir. Yr arwyddion mwyaf amlwg bod dyfrgwn yn byw ar ddyfrffordd yw eu llwybrau i mewn ac allan o'r afon sydd wedi eu gwisgo, gweddillion rhywogaethau ysglyfaeth, olion troed ar y glannau mwdlyd a'u baw sy'n arogli'n rhyfeddol o felys (tail dyfrgwn).

Ar un adeg, roedd dyfrgwn i'w cael ledled y Deyrnas Unedig, ond roedd cyfuniad o lygredd mewn afonydd, colli llystyfiant ar hyd afonydd a chynlluniau draenio newydd yn golygu bod dyfrgwn wedi diflannu o fwyafrif afonydd Prydain erbyn yr 1970au. Ond mae newyddion da, mae cyfuniad o ailgyflwyno, glanhau afonydd, gwalau artiffisial a chynyddu'r cynefinoedd o gwmpas glannau afon wedi golygu bod poblogaethau'n ailsefydlu'u hunain yn llwyddiannus o gwmpas y Deyrnas Unedig.

Mae ar afonydd angen rheolaeth dda o hyd i gynnal stociau pysgod ar lefelau da fel y gall dyfrgwn ffynnu ond maent yn wynebu bygythiad newydd. Mae llawer o ddyfrgwn ifanc yn cael eu lladd ar y ffyrdd bob blwyddyn, ac mae pobl yn gweithio'n ddygn i ddod o hyd i ddatrysiadau megis twneli tanddaearol.

## Sut mae dyfrgwn wedi eu haddasu i fywyd yn y dŵr:

- Mae ganddynt falfiau yn eu clustiau a'u llygaid sy'n eu galluogi i'w selio dan ddŵr
- Mae ganddynt y ffwr mwyaf trwchus o holl famaliaid y Deyrnas Unedig; mae dwy haen iddo ac mae'n dal dŵr
- Mae ganddynt gynffon bwerus siâp llyw i'w helpu i nofio
- Mae ganddynt draed gweog ar gyfer nofio'n bwerus, ac mae ganddynt ffwr ar eu traed i'w cadw'n gynnes ac ychwanegu gafael dda ar greigiau llithrig
- Mae wisgers hir yn eu helpu i gael hyd i'w ffordd o dan ddŵr

**Geiriau allweddol ymchwil pellach:**
*Lutra lutra*, The UK Wild Otter Trust, helfeydd dyfrgwn, carlymoliaid, International Otter Survival Fund, blew garw, ysglyfaethwr apig, rhywogaethau gwarchodedig, arwyddion o ddyfrgwn yn y maes, gorffwysfa uwch a gorweddle gwelltog ('hovers' a 'couches') y dyfrgi

# Dyddiadur Dyfan y Dyfrgi









## Canllaw gweithgaredd:

<u>Canllaw gweithgaredd:</u>

- Preniau mesur
- Papur graff
- Copïau wedi'u hargraffu o 'Ddyddiadur Dyfan y Dyfrgi'

**I wneud y gweithgaredd:**

1. Rhoddir copïau o ddyddiadur y dyfrgi i'r disgyblion.

2. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn y dyddiadur i greu graff bar sy'n dangos faint o bob ysglyfaeth y mae'r dyfrgi yn ei fwyta. Gellir gwneud hyn naill ai bob dydd neu am yr wythnos gyfan.

3. Gellir ymestyn y gweithgaredd drwy greu graff arall yn seiliedig ar amcangyfrifon o ba mor bell y mae'r dyfrgi wedi teithio i gael y bwyd bob dydd. Mae gan y map raddfa ac mae'r dyddiadur yn manylu lle mae'r dyfrgi wedi bod, felly gellir hefyd mesur pellter y llwybrau a'u rhoi yn y graff.

4. Fel dosbarth, gellir trafod y canlyniadau a chymharu'r pellteroedd i leoedd lleol sydd â phellter cyfatebol fel bod y disgyblion yn cael syniad o ba mor bell mae'r dyfrgwn yn teithio i gael bwyd.

# Dyddiadur Dyfan y dyfrgi


**Dydd Llun:**
Roedd hi'n ddiwrnod braf heddiw felly fe aethom am dro bach i'r arfordir i fwyta crancod. Roedd yn teimlo fel ei fod yn cymryd oes i nofio'r holl ffordd i'r aber ac yna o amgylch i'r Bae Creigiog. Ond roedd llwyth o fwyd, bwyteais wyth cranc! Ar y ffordd yn ôl, i swper mi gefais eog a dau lyffant. Amser gwely rŵan.

**Dydd Mawrth:**
Roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn heddiw a doeddwn i ddim yn teimlo fel mynd ymhell, felly cefais dri llyffant i frecwast ac yna es i nofio ychydig yn y llyn Mawr Glas. Roedd ambell frithyll felly cefais ddau i ginio ac yna es i adref i gael dau lyffant i swper.

**Dydd Mercher:**
Cefais ddiwrnod prysur iawn heddiw, gyda digon o nofio. Roedd Mam eisiau i mi helpu i nôl bwyd i bawb felly nofiom i fyny i'r rhaeadr i ddal eog, a bwyteais un mawr i frecwast. Yna, aethom i lawr i Ffrwd Goediog i chwilio am lyffantod. Roeddwn i mor llwglyd fel y bwyteais dri fel rhywbeth i aros pryd. Wedyn, mi wnaethom barhau i lawr at y Traeth Tywodlyd i chwilio am grancod. Daethom o hyd i lwyth felly cefais bedwar i swper. Roedd yn teimlo fel ei fod yn cymryd oes i nofio'n ôl i'r wâl heno.

**Dydd Iau:**
Roeddwn i'n flinedig iawn heddiw felly doeddwn i ddim eisiau gwneud llawer. Aethom i nofio'n gynnar o gwmpas y llyn Mawr Glas. Cawsom ddau frithyll i frecwast. Yna, aethom i chwarae yn ffrydiau'r mynydd. Cefais fy hoff fwyd i ginio, pedwar cimwch afon! Roedd yn flasus iawn. Cefais gyntun ac yna mi es i gyda Mam i'r rhaeadr lle cawsom eog i swper.

**Dydd Gwener:**
Roedd hi'n ddiwrnod stormus heddiw felly penderfynodd Mam y dylem fynd i'r môr i chwilio am grancod. Aethom i lawr at y brif afon a daethom ar draws llawer o lysywod. Cefais dair fach i frecwast. Aethom reit at ymyl y Traeth Tywodlyd heddiw cyn belled ag y medrwch fynd o'r aber – roedd yn gyffrous. Cefais chwe chranc i ginio a dau arall yn y Bae Creigiog. Cyn gynted ag y gwnaethom gyrraedd adref, rhoddodd Mam dri llyffant i ni i swper ac aethom i'r gwely.



Lluniais fap o ardal fy nghartref fel y gallaf ei chofio am byth...

# Crëwch fi



## Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Taflen waith wedi ei hargraffu, 'Crëwch fi'
- Pennau a phensiliau

**Cyn cychwyn ar y daflen waith:**

1. Mae angen cyflwyniad i ddyfrgwn a hefyd i addasiadau cyn y gall disgyblion gwblhau'r daflen waith yn annibynnol ond gellid ei ddefnyddio fel gweithgaredd dosbarth cyfan i gyflwyno'r cysyniad o addasu.


**I wneud y gweithgaredd:**

1. Rhoddir copïau o'r daflen waith, 'Crëwch fi', i'r disgyblion.

2. Mae'r disgyblion yn lliwio'r dyfrgi ac yn ychwanegu gwybodaeth am sut mae holl rannau ei gorff wedi eu haddasu'n arbennig i'w fywyd mewn, ac o gwmpas, afonydd.

# Crëwch fi

Lliwiwch i mewn a chwblhewch y dyfrgi. Yna ychwanegwch labeli i'r saethau i ddisgrifio sut mae pob rhan wedi ei haddasu i fywyd y dyfrgi yn y dŵr.






Mewn un sgwâr 2.5cm o gorff dyfrgi, mae oddeutu un miliwn o flew!